Mini-decathlon Campau'r Ddraig

Bu cyfanswm o 550 o blant o 55 ysgol gynradd yn cystadlu mewn 8 cystadleuaeth leol ledled y sir, ac yn sgil hynny, bu 10 ysgol yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth derfynol yn Ysgol Bro Myrddin, Caerfyrddin ddydd Iau 11eg Mawrth 2010.

Dyma'r ysgolion a enillodd y cystadlaethau lleol: Ysgol Bro Banw (Dyffryn Aman), Nantgaredig (Caerfyrddin), Pontyberem (Gwendraeth), Cae'r Felin (Castellnewydd Emlyn), Maes-llyn (Gorllewin Llanelli), Griffiths Jones (Sanclêr), Dewi Sant (Llanelli), Llangadog a Gollop Prep (Llanymddyfri) a Ffair-fach (Llandeilo).

Yn y gystadleuaeth derfynol yng Nghaerfyrddin, llwyddodd Ysgol Dewi Sant i ennill y pwyntiau mwyaf a dod yn brif enillwyr y sir. Bellach mae'r ysgol wedi derbyn 3 darn o offer ar gyfer athletau; prawf cydbwysedd, gwaywffyn i'w defnyddio dan do ac offer sboncio sydyn er mwyn datblygu ei Chlwb Campau'r Ddraig ymhellach.

Dywedodd Alison Siggery – Swyddog Datblygu Campau'r Ddraig, “Rwy'n falch iawn o'r hyn mae'r rhaglen Mini-decathlon wedi'i gyflawni. Prif ffocws y Mini-decathlon oedd cynnwys cymaint o blant a phosibl mewn gweithgareddau hwyl a gweithgareddau athletig o safon.

Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol o ganlyniad i'n swyddogion 5 x 60 ar draws Sir Gaerfyrddin a ddarparodd y cyfleusterau er mwyn cynnal y digwyddiad, ac yn sgil ymroddiad ac ymrwymiad y disgyblion uwchradd a'r gwirfoddolwyr a roddodd o'u hamser i helpu i gefnogi ni gyda'r gweithgareddau.

Rhoddwyd manylion i'r disgyblion ynghylch y clybiau athletau yn eu hardal er mwyn eu hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon a gwneud mwy o ymarfer corff.

Dywedodd Alison, "mae hyn yn ffordd wych o hyrwyddo clybiau lleol a chael plant i wneud mwy o ymarfer corff yn fwy aml."

Os oes gennych awr neu ddwy yn rhydd bob wythnos er mwyn bod yn wirfoddolwr Campau'r Ddraig, cysylltwch â Mari-Ann Jones neu Hilary Jones drwy ffonio 01554 744350.